

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 192

Pris 80c

Mis Mai 2017



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Llundain: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** bethanjones@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

Y Pwyllgor: Yr Uchod, Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams a Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Gwasanaethau Capeli Cymraeg Mis Mai

Bethel

7fed 10.30. Dr. John Gwynfor Jones

14eg 10.30 a 6 o.g. Parch. Maldwyn Jones

21ain 10.30 a 6 o.g. Ymuno gyda Tonyfelin,
Sul o Fawl.

28ain 10.30 a 6 o.g. Ymuno â Thonyfelin.

Tonyfelin

7fed Bore a hwyr Parch Milton Jenkins

14ydd 10.30 Parch Milton Jenkins
6.00 Oedfa unedig yn eglwys Van Road

21ain Sul o Fawl


28ain Bore a hwyr Parch Dafydd Henri
Edwards

Capel y Groeswen

14eg 3:00 yp Y Parch Alun Tudor

Hanes Cwm Ni

4/5/17 Huw Llywelyn Davies
'Hanes darlledu yn y Gymraeg
ym myd y campau'



Ble?

Clwb Rygbi Penallta,

Ystrad Mynach CF82 7EP

Faint o'r gloch? 7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Addas ar gyfer dysgwyr hefyd

CANOLRADD

UWCH

HYFEDREDD

Digwyddiad am ddim



COGINIO CYNRADD yr URDD 2017

Cynhaliwyd rownd Rhanbarthol Coginio Cynradd yr Urdd ar gyfer y 4 ddaeth yn gyntaf ac ail ar ddydd Mawrth 25ain Ebrill ac mi fydd yr enillydd yn cynrychioli'r Rhanbarth ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Penybont ar Ogwr Taf ac Elai ar ddechrau mis Mehefin. Bydd y canlyniadau yn llawn yn rhifyn Mehefin "Cwmni".

Huw Rowlands oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth Coginio draw yn Ysgol Gyfun Gwynllyw ar gyfer ysgolion Gwent.



Dyma'r 3 enillodd yng Nghwm Rhymni sef y gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Caerffili.




Merched Ysgol Gymraeg Y Fenni, Bryn Onnen a Bro Helyg enillwyr Rhanbarth Gwent

Ar y clawr: Wyau Dewi a Dwynwen yng nghastell Caerffili ar fin deor yn ddreigiau bach annwyl !

Geiriau o'r Gorffennol – 2

gan Dr Elin Jones



Prin iawn yw'r geiriau sydd ar gadw i ni o'r gorffennol pell. Un o ryfeddodau ein cwm ni yw taw 'Gelligaer' yw un o'r geiriau hynny! Daw'r cyfeiriad at y pentref mewn cerdd sydd yn perthyn, yn ôl yr arbenigwyr, i'r ddegfed canrif – dros fil o flynyddoedd yn ôl. *Armes Prydain Fawr* yw'r gerdd, a gyfansoddwyd yn wreiddiol, ym marn ysgolheigion, fel beirniadaeth ar bolisiau heddychlon Hywel Dda (942 – 950 OC) tuag at frenhinoedd pŵerus de-orllewin Lloegr. Mae'r copi hynaf sydd gennym o gyfreithiau Hywel yn perthyn i'r 13eg ganrif, a dyna hefyd yw dyddiad y copi hynaf o *Armes Prydain*.

Cerdd broffwydol yw hon, ac yn un waedlyd iawn hefyd. Mae'n disgrifio'r ymladd creulon fydd yn digwydd rhwng y Cymry a'u cynghreiriaid- dynion Cernyw, yr hen Alban, Iwerddon a Llychlyn - yn erbyn y Saeson, ac yn proffwydo buddugoliaeth iddynt yn y diwedd. Yn ôl y bardd, bydd y Cymry yn ymladd dan nawdd *Mab Mair Mawr*, sef yr Iesu, a hefyd Dewi a seintiau eraill Cymru – ond mae agwedd y bardd tuag at ei elynion yn ddigon pell o ddysgeidiaeth yr Iesu a'i seintiau. *Llym llifeit llafnawr llwyr y lladant* meddai - bydd y Cymry wedi hogi eu llafnau llymion fel eu bod yn lladd yn llwyr.

Yn nes ymlaen, mae'n disgrifio canlyniadau'r ymladd - *Atui pen gaflaw heb emennyd/Atui gwraged gwedw a meirch gweilyd* – Bydd pennau wedi ei holli, heb ymenydd, a bydd gwragedd gweddwon a cheffylau heb neb i'w marchogaeth.

Perthyn y gerdd ar ei hyd i fyd y paganiaid a roddai fwy o barch i ddewrder a ffyrnigrwydd wrth ymladd nac i'r rhinweddau Cristnogol a ganmolwyd gan Dewi a'r seintiau eraill. Mae'r cerflun bychan o filwr yn yr eglwys yn Eglwysilan hefyd yn perthyn i'r cyfnod cynnar hwn, ac yn cyfleu agwedd bardd *Armes Prydain* - ysbryd ymladdgar di-ildio mewn cyd-destun Cristnogol.

Nid oedd hynny'n anghyffredin yn y cyfnod hwn, nac am ganrifoedd wedi hynny. Byddai beirdd ein tywysogion yn canu cerddi cyflawn i ganmol Duw a'r seintiau, ond wrth ganu clod tywysog, roedd ei ddewrder ar faes y gad a'i haelioni yn ei lys yn cael llawer mwy o sylw – a pharch – na'i rinweddau Cristnogol. I fardd *Armes Prydain* doedd dim byd rhyfedd o gwbl mewn ymfalchïo yn nistryw gelynyon y Cymry, nac mewn ymladd ochr yn ochr gyda phaganiaid o Lychlyn yn erbyn y Saeson oedd yn Gristnogion erbyn y cyfnod hwn.

A'r cyfeiriad at Gelligaer? Daw yn llinellau olaf *Armes Prydain*. Mae'r bardd yn gofyn i'r Arglwydd a greodd nef a ddaear – *Iolwn i ri a grewys nef ac eluyd* – am arweiniad Dewi i'r filwyr – *poet tywyssawc Dewi yr kynifwyr* – ac yn dweud yn blaen: *yn yr yg Gelli Kaer am Duw yssydd*: yn yr ing fe fydd Gelligaer yn gadarn dros achos Duw. Mae'n mynd ymlaen i broffwydo eto, wrth gloi y gerdd: ni fydd Gelligaer yn dirywio na phlygu na chrynu. Ni wireddwyd proffwydoliaethau eraill y bardd, ond mae eglwys Gelligaer yn sefyll o hyd!



Cofio'r Diweddar Meira Richards

Bu meibion Meira mor garedig a chynnig y deyrnged hon i'w mam.

Gyda thristwch mae cyhoeddi marwolaeth Meira Richards ar 11 Ebrill, 2017, gwraig Andrew, mam Ceri, Geraint a Meirion a mam-gu Owain a Ffion. Roedd hi'n 71 mlwydd oed. Ganwyd Meira ym mhentre Bryn, ger Maesteg, yn 1945 ac fe'i haddysgwyd ym Mhorth Talbot. Wedi amser yng Ngholeg y Drindod yng Nghaerfyrddin, dechreuodd ar yrfa addysgu. Wedi cyfnod o addysg mewn ysgolion cynradd, arbenigodd mewn addysg beripatetig i blant byddar, ar draws de Cymru.



Yn ystod dyddiau cynnar ei gyrfa addysgu daeth cyfle am daith i Baris, ble cwrddodd hi ag Andrew. Ym 1971 yn Rhos, ger Pontardawe, priododd y ddau. Bu'r cartref teuluol cyntaf yn Nelson, wedyn ar ôl cyfnod o fyw yn Ystrad Mynach, symudodd Meira ac Andrew i Benpedairheol ym 1977, ble buont yn byw tan ei dyddiau olaf hi.

Roedd Meira yn brwydro'n ddi-baid dros yr iaith Gymraeg. Gwnaeth ymgyrchu'n galed dros ddatblygiad uned Gymraeg newydd yn y cwm, yn wreiddiol yng Ngelligaer, ac yn hwyrach yn Ystrad Mynach. Erbyn heddiw caiff yr Ysgol Gymraeg ei hadnabod fel Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Allta.

Chwaraeodd rhan flaenllaw yn nhrefniadau Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni 1990, wrth iddi gadeirio'r pwyllgor llety a chroeso. Roedd hi hefyd yn aelod teyrngar o Ferched y Wawr a chôr Rhianedd Cwm Rhymni.

Yn anffodus, yn hwyrach yn ei bywyd, gwelwyd dirywiad yn iechyd Meira. Er iddi goncro dau wahanol gyfnod o gancr, dros y blynyddoedd diwethaf daeth diagnosis o Alzheimer's.

Hoffwn gofio Meira fel cymeriad hael, twym, hapus a charedig. Mae'n golled fawr i bawb a oedd yn ei hadnabod hi.

Dyma sydd gan ei chyfaill Gaynor Williams i'w ddweud


Cawsom lawer iawn o hwyl yng nghwmni Meira dros flynyddoedd lawer. Roedd yn unigryw - a thristwch mawr i ni gyd oedd ei gweld yn dirywio'n raddol dros gyfnod o flynyddoedd - degawdau a dweud y gwir.

Rwyn cofio hi'n dweud wrthyf pan roedd Dylan newydd ddechrau yn yr ysgol feithrin bod côr Cymraeg ar fin cael ei sefydlu yn y Cwm - a bod croeso i fi ymuno. Dywedodd nad oedd rhaid meddu ar lais arbennig a ni fyddai unrhyw un yn rhoi gwrandawriad i mi - a dyma fi'n ymuno â Rhianedd Cwm Rhymni. A diolch i Meira, des i'ch nabod chi gyd a chael blynyddoedd lawer o bleser llwyr yn eich cwmni.

*

Cynhaliwyd angladd Meira ddydd Gwener, 28ain o Ebrill yng nghapel y Methodistiaid Cascade ac yna yn yr amlosgfa yng Nglantaf.

Colofn Dafydd Islwyn



Testun y bryddest yn y Genedlaethol, Lerpwl, oedd “William Williams, Pantycelyn” ac un o’r beirniaid oedd y Parchedig Ben Davies, Panteg, Ystalyfera. Y bardd buddugol oedd Y Parchedig J.T.Job, Carneddi, Bethesda, Sir Gaernarfon ar y pryd. Enillodd Goron Aur a dau ddeg pum punt am ei bryddest, “y gall gwerinwr ei deall, a gall ysgolhaig ei mwynhau.” Pryddest a dros fil a thri chan llinell - mi fuasai hi’n faes llafur “Dosbarth Wyn”, yng Nghaerffili, am fisoedd lawer! Dyma’r pennill sy’n cau’r bryddest,

O Bantycelyn! Fab y Gân! –
Dych’mygaf glywed dy Emynau
Fel gwyρθiau’n gwau ym Moliant glan
Cerddorfa’r Nef a’i myrdd delynau!
Oes yna Emyr mwy ei fri? -
Eill ganu’n uwch am Galfari.

Cystadlodd un ar ddeg bardd am y Goron a gosodwyd pryddest Ben Bowen (1878 – 1903), Treorci, yn ail, pryddest anghyffredin o feddylgar yn ôl Ben Davies. Dyma gwpled o’r bryddest,

Mae gwinoedd Duw yn ysbrydoli Cymru;
Mae Pantycelyn fwyn yn eu costrelu.

Cyhoeddodd y bardd ei bryddest mewn llyfryn chwe deg tudalen wedi’r eisteddfod.

Mae gennym ni yng Nghwm Rhymni fymryn o hawl ar y Parchedig William Williams (1717 - 1791) Pantycelyn! Mynychodd Sasiwn Watford ar y 5ed a’r 6ed o Ionawr 1743 i sefydlu Cymdeithasfa’r Methodistiaid Cymreig. Yn 1912 yr arluniodd H.Williams y darlun dychmygol o gyfarfod y 6ed i’r 7fed o Ebrill.

Yr un flwyddyn penderfynwyd yn y Sasiwn yn Watford eto i Williams fynd yn gynorthwywyr i’r Parchedig Daniel Rowland (1712 - 1790), Llangeitho. Roedd Y Parchedig Theophilus Evans (1693 - 1767), awdur Drych y Prif Oesoedd a ficer Llanwrtyd a Llanddewi Abergwesyn wedi gwrthod tystysgrif i’w giwrad ers 1740, Y Parchedig William Williams Pantycelyn, gael ei urddo’n offeiriad yn 1743.

Ar yr 16eg o Dachwedd 1780 bu farw Mrs Grace Price, Watford, Sir Forgannwg yn 37 oed, wedi bod yn briod â Chadben Price am ddeuddeg mlynedd. Gweithiodd William Williams farwnad iddi, pedwar deg dau bennill o wyth llinell yr un. Dyma’r un olaf ond un,

Mi wna ‘ngoreu ar fod ei henw
‘N swnio’n beraidd iawn i ma’s,
Lawn mor belled ag mae Cymro
‘N berchen dwyfol nefol ras;
Fe gaiff Môn, a Fflint ac Arfon
Penfro, wybod mai gwir yw,
I Forgannwg glodfawr esgor/

Bore dydd Iau’r 9fed o Awst 1990 ym Mharc Bargoed fe urddwyd Thomas William Cecil Williams yn aelod ofydd Gorsedd y Beirdd. Cyflwynwyd ef fel, “Disgynnydd o linach y Pêr Ganiedydd - y chweched genhedlaeth. Gofalodd ef a’i deulu fod drws Pantycelyn yn agored i bererinion a fod iddynt groeso cynnes i’r cartref lle canodd Williams ei gân.”

Un o’r personau y canodd Tegwyn Jones iddo yng nghystadleuaeth wyth o dribannau Morgannwg i berson neu bersonau yn y Genedlaethol, Caerdydd 2008, oedd William Williams, Pantycelyn,

Roedd Wil o Bantycelyn
Yn chwip am witho emyn
Ond fawr o hwyl a gafodd shwt
Ar lunio pwt o englyn.

Dros y blynyddoedd fe weithiwyd cannoedd ar gannoedd o englynion i Bantycelyn. “Llyfr Emynau” oedd teitl un Dic Jones,

Mae sain Williams yno’n – amal iawn
Ymhlith ei awduron
Rhoes ei loes i’r gyfrol hon
Yn ddigelwydd ei galon.


Derbyniwyd 31 englyn yng nghystadleuaeth englyn tri misol Barddas, Ionawr 1992: y testun oedd Pantycelyn. Canodd Idris Reynolds i’r ffermdy,

Erys yn hardd oherwydd – ei uno
Á’r bryniau tragwydd,
Ac un fyth â’r gân a fydd
Yr un yw’r man a’r emynydd.


Posau'r Plant

gan Mary Jones

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



Mae 16 gair am y tywydd wedi'u cuddio yn y Chwilair. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



Y Tywydd

glaw	eirlaw	cesair
rhew	niwl	gwynt
storom	taran	oer
twym	cwmwl	haul
awel	sych	gwlyb
	eira	

Y Blew



Annwyl gyfaill,

Rwy'n cynhyrchu rhaglen arbennig i BBC Radio Cymru am y grŵp pop Y Blew, a berfformiodd dipyn o gwmpas Cymru yn ystod 1967.

Rwy'n awyddus i holi rhai a welodd y grŵp, a chael eu hymateb iddynt. A fyddai modd i chi gynnwys y darn yma yn eich papur, os gwelwch yn dda?

Diolch o galon,

Eurof Williams

Taith Pentre' Ifan

Dyma newyddion diweddaraf Owain Ash am y paratoadau i fynd i Batagonia



Yn ddiweddar cefais y pleser o gwrdd â'r bobl ifanc eraill sy'n mynychu'r daith i Batagonia ym Mhentre' Ifan, Sir Benfro. Yn anffodus roedd Joanna yn rhy dost i fynychu ond cefais i amser gwych yng nghwmni fy nghyfoedion newydd. Yn ystod y penwythnos trefnwyd llond llu o weithgareddau penigamp er mwyn i bawb allu ddod i 'nabod ei gilydd. Ac erbyn diwedd y penwythnos roedd hi fel petai pawb wedi 'nabod ei gilydd ers blyneddau, ac nid ond ychydig ddyddiau!

Braf oedd cael y cyfle i dreulio penwythnos cyfan ymysg siaradwyr Cymraeg ifanc brwd, rhywbeth sydd yn anffodus yn ddigon anghyffredin yma yng Nghaerffili! Roedd y penwythnos hefyd yn gyfle perffaith i bawb rannu syniadau codi arian, er yn anffodus, nid oes gan bawb ohonom y ddawn i ennill Cân i Gymru er mwyn ariannu'r daith! Roedd y penwythnos

hwn yn sicr yn ymarfer da ar gyfer y daith gyda phob un ohonom ni'n cysgu ar lawr y neuadd, rhywbeth bydd rhaid i ni ymgysgu ag e ym Mhatagonia. Roedd y daith yn sicr wedi fy nghyffroi am y daith i Batagonia, ac yn ffodus, ni fydd rhaid aros yn rhy hir gyda phenwythnos tebyg wedi ei drefnu yng Nglan Llyn ar ddiwedd mis Medi.

Yma, yng Nghaerffili mae ymgais codi arian Joanna a finnau wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac rydym eisoes wedi codi bron i £4000 o bunnoedd. Yn rhifyn diwethaf y papur roedd lluniau o Gwis Tonyfelin, noson llawn hwyl a sbri lle llwyddom ni i godi bron i £400. Hoffwn hefyd ddiolch i Glwb Rotari Machen am eu penderfyniad i wobrwyo £400 arall tuag at ein taith. Hefyd i PTA Cwm Rhymni am ein cefnogi'n ariannol ar ôl i ni werthu lluniaeth yn yr Eisteddfodau diweddar ar safle'r ysgol. Yn olaf felly, hoffwn estyn diolch i bawb sydd wedi cefnogi ein taith, rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth o waelod calon ac yn ddiolchgar am y cyfleodd arbennig mae'r daith wedi cynnig i ni hyd yn hyn!



Am ragor o wybodaeth am y daith peidiwch ag oedi cysylltu ag Owain gan e-bostio owash16@gmail.com.

Parc Virginia, Caerffili
DREIGIAU GWENT

17:15 v 6ed o Fai
GLEISION CAERDYDD

Bu Clwb Rygbi Caerffili, ynghyd â Chwm Rhymni i gyd yn rhan o ranbarth Gwent ers sefydlu'r ranbarthau ar gyfer cystadlaethau rygbi er mai prin fu'r manteision.

Ond daeth tro ar fyd a gwelwn dîm Dreigiau Gwent yn chwarae yng nghartref Clwb Rygbi Caerffili. Ac nid unrhyw gêm yw hon chwaith gan y bydd Dreigiau Casnewydd yn chwarae yn erbyn eu prif elynion traddodiadol. Ie, yn erbyn Gleision Caerdydd.

Gobeithiwn fod yr anrhydedd hon yn gydnabyddiaeth o lwyddiant diweddar clwb Caerffili. Eleni maent yn agos i frig Adran 3A'r Dwyrain a chyda gemau mewn llaw dros eu gwrthwynebwyr agosaf, maent i'w gweld yn agos iawn i gael dyrchafiad i adran uwch y flwyddyn nesaf. A phwy all anghofio ymweliad tref y castell â Stadiwm y Mileniwm i chwarae yn Rownd Derfynol y Cwpan?

Dewch i fwynhau'r digwyddiad hapus hwn. Mae aelodau'r clwb wrthi fel lladd nadredd yn gwneud yn siŵr y bydd y digwyddiad yn llwyddiant. Ond dim ond lle i ryw 6,000 o gefnogwyr sydd yno ac, felly, gwnewch yn siŵr o'ch tocyn ymhell o flaenllaw!

Colofn y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Wel mae'r gwanwyn wedi dod! Mae dail ar y coed a blodau yn yr ardd. Mae llawer o flodau gwyllt hefyd. Ydych chi wedi sylwi faint o friallu sydd i'w gweld eleni? Maen nhw'n tyfu ym mhob man.

Dyma gerdd gan Eifion Wyn yn disgrifio'r briallu trwy lygad plentyn. Mae'r blodau melyn fel darnau o aur ac mae'r plentyn eisiau gwybod pwy sy wedi eu gadael o gwmpas y wlad. Mae ei famgu (neu nain) yn dweud mai'r tylwyth teg sy'n gyfrifol!

Y Briallu

Mi welais heddiw'r bore

Yr aur melyna 'rioed;

Roedd rhai o dan y perthi,

Ac eraill yn y coed;

Pwy meddwch chi a'u collodd,

Mewn llwyn, a phant, a ffos?

Mae nain yn dweud mai'r Tylwyth Teg,

Wrth ddawnsio yn y nos.



dail : leaves

gwyllt : wild

sylwi : notice

briallu : primroses

trwy lygad plentyn : a child's eye view

darnau o aur : pieces of gold

tylwyth teg : fairies

yn gyfrifol : responsible

melyna' 'rioed : the yellowest ever

perthi : bushes

pwy meddwch chi? : who do you think?



llwyn : bush

phant : hollow

ffos : ditch

Atebion Posau'r Plant

Dyma'r atebion. Sawl un gawsoch chi'n gywir?



Clecs y Castell!



Llwyddiant ym mhencampwriaethau gymnasteg !

Cafodd Ysgol y Castell llwyddiant rhyfeddol ym mhencampwriaethau gymnasteg cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth gyda buddugoliaeth mewn tair camp. Cyntaf i'r tîm ysgolion cynradd, cyntaf yn y parau i Poly Jayne a Carys a cyntaf i Aled yn y gystadleuaeth unigol i fechgyn. Tri chyntaf allan o chwe chystadleuaeth. Dyma'r tro cyntaf i'r ysgol gystadlu yng nghystadleuaeth y timau.

Daw hyn ar ben llwyddiant timau'r merched yn rownd derfynol pencampwriaethau traws gwlad y De-ddwyrain yn y Coed Duon. Daeth tîm merched blwyddyn 3 a 4 yn gyntaf yn eu cystadleuaeth nhw a thîm merched blwyddyn 5 a 6 yn eu cystadleuaeth hwythau. Dau gyntaf allan o bedwar - camp ardderchog o gofio bod y cystadlaethau hyn yn agored i dimau holl ysgolion Gwent a Chaerdydd.

"Rwy'n falch iawn o llwyddiant y timau hyn," meddai Mr Trystan Griffiths, Cydlynnydd Addysg Gorfforol yr ysgol. "Bu'r timau i gyd yn gweithio'n gyson ac yn galed gyda'r cystadleuwyr gymnasteg yn dod ynghyd ar brynhawniau Sadwrn am wythnosau ymlaen llaw i



I ffwrdd a ni i Eisteddfod yr Urdd 2017!



Barddoni gyda Bardd Plant Cymru

Fe fu grwpiau o blant blwyddyn 3 a 4
a blwyddyn 5 a 6 yn barddoni o dan arweiniad

Y byd mawr rhyfedd

Yn ein byd mawr rhyfeddol ni mae...

Nofio- plymio mewn i'r pŵll

Athletau- neidio yn y tywod a rhedeg
milltiroedd!

Ffrindiau—siarad a chwerthin!

Teuluoedd yn mynd ar wyliau ac yn creu
digwyddiadau!

Chwarae , yn yr Haf yn ddi-ddiwedd!

Ysgol, dysgu Mathemateg ac Iaith gyda
sgiliau newydd.

Anifeiliaid , doniol di-ri , Cath a chi

Llongyfarchiadau —yr ysgol â'r nifer
uchaf o farciau!

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu yn
cystadlu.

Llefarwyr unigol y Castell yn cipio pob
gwobr gyntaf!

Da iawn Ethan, Brychan a
Harriet !

1af i'r Parti Unsain, Parti
Deulais, Parti Llefaru ,



Fy myd bach rhyfedd

Yn fy myd bach i mae...

blodau'n blaguro

amser yn cael eu dreulio

plant yn chwerthin

oedolion yn gwerthu

cerddoriaeth y ffliwt a'r piano

a phlant ac oedolion yn gwerthuso.

Hefyd, yn fy myd bach i mae...

rhedeg marathon

a'r môr yn un don.


Dyma fy rhyfeddodau bach i .



Ar ôl wyth mlynedd fel Dirprwy Ysgol y Cas-
tell, mae'n amser i ddweud ffarwel i Mr Dan-
iel Davies. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei
swydd newydd. Diolch yn fawr a phob lwc!

HOMENAJE I'R BRIGADAU RHYNGWLADOL 2016 (3)

Dydd Iau 27 Hydref (parhad)



Roedd cinio mewn caffï yn llawn pethau annisgwyl; roedd coes o borc â charn gyda napcyn drosti yn y

ffenest, ac roedd yr archeb yn gymysgylid gyda tortilla, paella a chawl pysgod yn ymddangos heb i neb ofyn amdany'n nhw. Cymerom y ffordd i Madrid wedyn, ar hyd gwastadeddau llwm a brynïau isel, heibio i gaer unig â muriau o'i chwmpas. Cafwyd seibiant am goffi mewn caffï ochr ffordd anghysbell ac fe gawsom goffi ardderchog a chyfle i gymryd golwg ar waith crefft lleol. O'r diwedd, fe gyrhaeddodd Hotel Moderno, yn agos iawn i Puerta del Sol, ac fe gawsom bryd o fwyd hyfryd ym mwyty Ginger, drws nesaf i Hostal Persal, lle roeddem wedi aros yn ystod ein hymweliad blaenorol.

Ynghlwm wrth y rheiliau o amgylch Sol Metro roedd posteri'r myfyrwyr yn gwrthwynebu rheolau Prif Weinidog Rojyo i wahardd gwrthdystio. Byddent yn cael eu tynnu i lawr bob bore gan yr awdurdodau ond byddent yn cael eu rhoi yn ôl cyn y gwrthdystiad yr wythnos ddilynol

Dydd Gwener 28 Hydref

Aethom mewn tacsï i'r Hotel Abba er mwyn dal bws i Guadalajara. Cafodd y gyrrwr sgwrs hir gyda Margarita o Puerto Rico am ddeddfau newydd yr heddlu oedd yn gwahardd lluniau o'r heddlu, ac yn eu galluogi i gymryd meddiant o gamerau. Fel yr oeddem yn gadael, dywedodd y gyrrwr fod ei daid wedi'i ladd ar yr Ebro a bod ei nain wedi treulio pedair blynedd mewn carchar, gan adael ei fam, er ei bod yn blentyn, i ofalu amdani ei hun ar y stryd. Mae hanesion fel hyn yn atgofion pwerus o ormes Franco.



Roedd Torija, lleoliad brwydr Guadalajara, wedi'i guddio gan niwl pan oeddem yn ymgasglu o amgylch swyddfeydd y cyngor. Cafwyd anerchiad gan y Maer ac fe gafodd Josef, y brigadista, le anrhydeddus yn y digwyddiad. Ymunais â'r Eidalwyr a'r Almaenwyr yn y gân, a derbyniodd dirprwyaethau o'r gwahanol frigadau dystysgrifau yn cydnabod cyfraniad y brigadau rhyngwladol. Cwrddais â menyw oedrannus o Sbaen y bûm yn siarad â hi ar ymweliad blaenorol â mynwent Fuencarral. Roedd ei gŵr wedi bod yn y Fyddin Weriniaethol

Fe gerddom i fyny'r llwybr caregog ar ochr bryn gan edrych dros ddyffryn Guadalajara. Cliriodd y niwl yn araf ac fe gawsom eglurhad o batrwm y frwydr.

Cawsom bicnic yn neuadd chwaraeon Torija a gafodd ei baratoi'n gyflym iawn ar ein cyfer. Siaradais â David Yorke, brodor o Canada, a oedd wedi ysgrifennu darn ar suddo'r Ciudad de Barcelona, ac fe soniodd am F'ewyrth Sidney yn achub Sankari, y newyddiadurwr o'r Ffindir,. Cafodd y byrddau a'r cadeiriau yn y neuadd eu dychwelyd i'w llefydd arferol ac fe ddychwelom i Madrid.

Roedd mur ym mynwent Fuencarral ac arno deyrngedau i'r Brigadau Rhyngwladol a phlaciau i'r gwirfoddolwyr Iddewig, Pwylaidd, Rwsiaidd, Ffrengig a Bataliwn Prydain. Roedd gen i flodau o liwiau'r Weriniaeth (roeddem wedi'u derbyn ddydd Mawrth) ac fe'u gosodwyd ger y mur coffa. Clywyd caneuon y dirprwyaethau Almaenig, Eidalaid, Sbaenaid a Ffrengig yn atsain o amgylch y fynwent.



Wrth iddi nosi, roeddem yn University City lle bu ymladd ffyrnig ac fe wrandawom ar areithiau mewn nifer o ieithoedd. Roedd y gofeb i'r Brigadau Rhyngwladol yn parhau i fod yn wleidyddol gynhennus ac roedd wedi'i malurio gan gefnogwyr Franco a'r Anarchwyr, ond cafodd ei hadfer eto fyth.

Roedd Rojoy i'w gadarnhau fel Llywydd ar ôl blwyddyn heb lywodraeth weithredol yn Sbaen. Dim ond oherwydd bod PSAOE wedi ymatal rhag pleidleisio roedd modd iddo gael ei gadarnhau yn y swydd. Roedd yr heddlu yn barod am wrthdystiadau ac roedd atalfeydd ar hyd y strydoedd o amgylch y Senedd.

Dydd Sadwrn 29 Hydref

Roedd arwydd stryd i'w ddadorchuddio yn swyddogol; El Jardin de las Brigadas Internacionales oedd yr enw newydd. Canodd côr AABI (cyfeillion y Brigadau Rhyngwladol) i gyfeiliant acordion. Rhoddodd pob dirprwyath anerchiad byr ac fe gafwyd dadl fywiog gydag aelod o'r Blaid Sosialaidd am y Partido Popular yn ennill grym trwy ddiffyg.

Cerddom i gampws y brifysgol, a oedd yn weddol agos, gan ganu Bella Ciao gyda'n cyfeillion Eidalaid. Llwyddom i gyrraedd y bwffe yn y ffreutur cyn i'r rhes o bobl fynd yn hir. Canodd Jan Hammarlund ganeuon hyfryd tra oeddem yn bwyta ac fe chwaraeodd ein ffrind o Rwsia Moscow Nights ar y gitâr.

Aethom i erddi Claudio Moyano lle roedd y brigadwyr wedi ymgynnull yn 1936 ac fe gawsom ragor o areithiau hanesyddol.

Oherwydd presenoldeb dwys yr heddlu a'r gwrthdystiad a ddisgwyliid doedd dim modd i ni orymdeithio i orsaf Atocha. Felly, fe aethom i'r sgwâr y tu allan i Telefonica, tirnod pwysig lle y gorymdeithiodd Bataliwn Thaelmann adeg y Rhyfel Cartref. Cafwyd rhagor o areithio ac fe glywyd yr Internacionale eto mewn llawer o ieithoedd.



Roedd yr orymdaith yn erbyn llywodraeth Rojoy ar ei ffordd, gyda miloedd ar y strydoedd yn cynnwys myfyrwyr yn gwisgo crysauT melyn – 'mae'r ifanc yn codi – mynnwn ymddiswyddiadau!'. Llithrom drwy'r dorf i gael gweld lle roedd yr atalfeydd yn diweddu. Ar ben y bryn yn edrych i lawr ar adeiladau'r Senedd roedd heddlu terfysgaeth gyda thariannau yn sefyll mewn llinell. Cododd y gwrthdystion eu dwylo agored i roi cyfarchiad heriol.



Dydd Sul 30 Hydref

Ym marchnad awyr agored fawr Madrid roedd adran gyfan o stondinau gwleidyddol. Roeddynt yn gwerthu bathodynau, llyfrau, posterï a chrysau T. Daethom at y siop lyfrau amgen ac yna fe aethom ar daith fer o amgylch rhai o'r lleoliadau a oedd yn gysylltiedig â'r Rhyfel Cartref – yr adeiladau y cedwid y carcharorion ffasgaidd ynddynt wedi i'r gwrthryfel gael ei atal, a swyddfeydd yr AABI. Daethom ar draws caffi awyr agored ac fe gawsom berfformiad gan artist cabaret a oedd yn ein hatgoffa o bantomeim Carmen neu Berlin yn y 1930au.

Yn ôl i Hotel Modern a ffarwelio ac wedyn cymryd tacsï i'r maes awyr yn barod ar gyfer ein taith adre gyda'r nos.

Yn ystod pob ymweliad rydym wedi sylwi ar newid yn nhirwedd y cof. Roedd dychwelyd i Sbaen yn y 1980au yn gyfle i'r Brigadwyr Cymreig, rhai fel Alun Menai Williams, i ymweld â'r wlad a ffurfiodd eu gweithredu gwleidyddol, y frwydr agoriadol yn yr Ail Ryfel Byd. Fe gadwodd eu teuluoedd gof y frwydr honno yn fyw. Mae'r amser wedi dod i Sbaen archwilio ei hanes ei hun. Roedd yn galonogol i weld ymhith y torfeydd yn y dathliadau 80 mlynedd hyn, genhedlaeth newydd sy'n cydnabod peryglon caniatáu i anoddefgarwch, hiliaeth a senofobia godi eto yn Ewrop.

Fel roedd y myfyrwyr wedi ysgrifennu ar y rheiliau 'Er mwyn mynd heibio'r dudalen, mae'n rhaid i chi ei darllen.' Dyma apêl frys i ddysgu gan y gorffennol.

CANLYNIADAU: Eisteddfod Rhanbarth Gwent 2017

181 Unawd Bl. 2 ac iau

Isabelle Moger Ysgol Gymraeg Bro Allta 1af
Eleanor Wright-Nicholas Ysgol Y Castell 2il
Seren Croke Ysgol Gymraeg Cwmbran 3ydd

182 Unawd Bl. 3 a 4

Olivia Mogford Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon 1af
Seryn France Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed 2il
Jessica Williams Ysgol Y Lawnt 3ydd

183 Unawd Bl. 5 a 6

Millie Evans Ysgol Y Lawnt 1af
Elliot Harrington Ysgol Ifor Bach 2il
Summer Richards Ysgol Gynradd Bryn Onnen 3ydd

184 Deuawd Bl. 6 ac iau

Isaac ac Evan Ysgol Gymraeg Cwmbran 1af
Maddie a Seren Ysgol Gymraeg Bro Allta 2il
Luke a Grace Ysgol Ifor Bach 3ydd

185 Parti Bl. 6 ac iau (Adran)

Parti Canadram Adran Canadram 1af

186 Parti Unsain Bl. 6 ac iau (D)

Parti Cwm Ifor Ysgol Gynradd Cwm Ifor 1af
Parti Lily Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf 2il

187 Côr Bl. 6 ac iau (Adran)

Cor Adran Y Lawnt Adran y Lawnt 1af

189 Parti Unsain Bl. 6 ac iau (Ysg. dros 50)

Parti Unsain Y Castell Ysgol Gymraeg Y Castell 1af
Parti Ffion Ysgol Gymraeg Bro Allta 2il
Parti Ysgol Gymraeg Cwmbrân 3ydd

191 Côr Bl. 6 ac iau (Y.C.) (Ysg. Dros 150)

Parti Ysgol y Castell I 1af
Cor Ifor Bach Ysgol Ifor Bach 2il
Côr Ysgol Gymraeg Cwmbrân 3ydd

192 Parti Deulais Bl. 6 ac iau (Y.C./Adran)

Parti Ysgol y Castell Ysgol Gymraeg Y Castell 1af
Parti Trelyn Ysgol Gymraeg Trelyn 2il
Parti Ysgol Gymraeg Cwmbrân 3ydd

194 Unawd Merched Bl. 7-9

Ffion Griffith Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Rachel McAuliffe Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il
Eleri Marshall Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 3ydd

195 Unawd Bechgyn Bl. 7-9

Gethin Bennett Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Kai Fish Ysgol Gyfun Gwynllyw 2il
James Merchant, Ysgol Gyfun Gwynllyw 3ydd

196 Deuawd Bl. 7-9

Gethin a Ffion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Elisha a Rachel Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il

197 Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed

Celyn Haf Hughes Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Lizzie Metcalf Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il
Ruby Bridges Ysgol Gyfun Gwynllyw 3ydd

198 Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan 19 oed

John Liddington Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Ethan James Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il

205 Côr S.A. Bl. 7, 8 a 9

Parti Charlie Ysgol Gyfun Gwynllyw 1af

208 Côr S.A.T.B. Bl. 13 ac iau

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Ysgol 1af

210 Ensemble Lleisiol Bl. 10 a dan 19 oed

Parti Amy Ysgol Gyfun Gwynllyw 1af

216 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau

Morgan Miles Jones Ysgol Gymraeg Y Ffin 1af

221 Unawd Telyn Bl. 6 ac iau

Seren Williams Ysgol Gymraeg Bro Allta 1af

222 Unawd Llinynnol Bl. 6 ac iau

Jacob Lewis Ysgol Gynradd Ty Du 1af

223 Unawd Gitâr Bl. 6 ac iau

Maddie Malpas Ysgol Gymraeg Bro Allta 1af
Caitlin Seaborne Ysgol Cwm Derwen 2il

224 Unawd Chwythbrennau Bl. 6 ac iau

Seren Williams Ysgol Gymraeg Bro Allta 1af
Nathaniel Webb Ysgol Panteg 2il
Elliott Bell Ysgol Gymraeg Bro Allta 3ydd

225 Unawd Pres Bl. 6 ac iau

Tanwen Falloon Ysgol Gymraeg Caerffili 1af
Elliott Bell Ysgol Gymraeg Bro Allta 2il
Carys Turner Ysgol Gynradd Plasyfelin 3ydd

226 Unawd Piano Bl. 6 ac iau

Gwenno Mair Wood Ysgol Gymraeg Y Ffin 1af
Erin Crosbie Ysgol Gymraeg Y Ffin 2il
Erin Higgins Ysgol Gymraeg Y Fenni 3ydd

227 Unawd Offer Taro Bl. 6 ac iau

Mathew Jones Ysgol Gymraeg Y Fenni 1af

228 Parti Recorder Bl. 6 ac iau

Marshfield Recorder Ensemble Ysgol Marshfield 1af

229 Ensemble Offerynnol Bl. 6 ac iau

Pedwarawd yr Allta Ysgol Gymraeg Bro Allta 1af
Ensemble Ysgol Gymraeg y Fenni 2il

233 Unawd Telyn Bl. 7-9

Ysgol Audrey Perry Gyfun Gorllewin Mynwy 1af
Tiegan Hooley Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il

234 Unawd Llinynnol Bl. 7-9

Mali Elen Wood Ysgol Gyfun Gwynllyw 1af

235 Unawd Gitâr Bl. 7 - 9

William Lewis Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Gruffydd Thomas Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il

236 Unawd Chwythbrennau Bl. 7-9

Georgina Belcher Ysgol Gyfun Gwynllyw 1af
Jasper Bell Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il
Megan Lowri Wood Ysgol Gyfun Gwynllyw 3ydd

238 Unawd Piano Bl. 7-9

Reuben Palmer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Seren Howells Ysgol Gyfun Gwynllyw 2il
Bronwen Rosie Clatworthy Ysgol Gwynllyw 3ydd

239 Unawd Offer Taro Bl. 7 - 9

Cian Hughes Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af

240 Ensemble Bl. 7, 8 a 9

Parti Y Coed Duon Ysgol Gyfun Y Coed Duon 1af

241 Unawd Telyn Bl. 10 a dan 19 oed

Aisha Palmer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Anwen Mai Thomas Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il

242 Unawd Llinynnol Bl. 10 a dan 19 oed

Nick Francis Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Connie Francis Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il

243 Unawd Gitâr Bl. 10 a dan 19 oed

Aisha Palmer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Caitlin Fussell Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il

245 Unawd Pres Bl. 10 a dan 19 oed

Holly James Porch Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af

246 Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed

Aisha Palmer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Nick Francis Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il
Manon Lewis Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 3ydd

248 Deuawd Offerynnol Bl. 13 ac iau

Mali Elen a Megan Lowri Ysgol Gyfun Gwynllyw 1af

CANLYNIADAU (Parhad)

288 Dawns Werin Bl. 4 ac iau

Parti Ifor Bach Ysgol Ifor Bach 1af
Parti Trelyn Ysgol Gymraeg Trelyn 2il
Parti Ysgol y Castell Ysgol Gymraeg Y Castell 3ydd

290 Dawns Werin Bl. 6 ac iau (Ysg.>100/Adr)

Parti Trelyn Ysgol Gymraeg Trelyn 1af
Parti Ysgol y Castell Ysgol Gymraeg Y Castell 2il

296 Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl. 9 ac iau

Gruffydd Thomas Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af

301 Dawns Greadigol Bl. 6 ac iau (Y.C./Adran)

Parti Ysgol Gymraeg Caerffili 1af
Parti Bro Sannan Ysgol Gymraeg Bro Sannan 2il
Marshfield Dance Ysgol Gynradd Marshfield 3ydd

302 Dawns Aml-Gyfrwng Bl. 6 ac iau

Parti Ysgol Gymraeg Caerffili 1af
Parti Ysgol y Castell Ysgol Gymraeg Y Castell 2il
Parti Lily Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf 3ydd

305 Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 6 ac iau

Awen Davies Ysgol Gymraeg Caerffili 1af
Ellie Francis Ysgol Gymraeg Y Castell 2il
Shania Johnson Ysgol Gymraeg Penalltau 3ydd

306 Grwp Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 6 ac iau

Rawlin Robotics Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin 1af
Parti Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon 2il
Parti Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed 3ydd

307 Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 7, 8 a 9

Arwen Riding Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Elisha Nur Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il
Lucy Price Ysgol Gyfun Y Coed Duon 3ydd

309 Dawns Hip-Hop//Disgo Bl. 10 a dan 19 oed

Anais Rowlands Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af
Milly Davies Ysgol Gyfun Y Coed Duon 2il
Josh Palmer Iemm Ysgol Gyfun Y Coed Duon 3ydd

337 Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau

Ethan Williams Ysgol Gymraeg Y Castell 1af
Ffion Brown Ysgol Panteg 2il
Summer Yarnold Ysgol Gymraeg Cwmbran 3ydd

338 Llefaru Unigol Bl. 3 a 4

Brychan Shawley Ysgol Gymraeg Y Castell 1af
Meghan Williams Ysgol Gymraeg Bro Allta 2il
Lucy Burchell-Bishop Ysgol Gymraeg Cwmbran 3ydd

339 Llefaru Unigol Bl. 5 a 6

Harriet Wright-Nicholas Ysgol Y Castell 1af
Erin Higgins Ysgol Gymraeg Y Fenni 2il
Seren Williams Ysgol Gymraeg Bro Allta 3ydd

340 Grwp Llefaru Bl. 6 ac iau

Parti Ysgol Gymraeg Y Castell 1af
Parti Ysgol Gymraeg y Fenni 2il
Parti Ysgol Gymraeg Cwmbrân 3ydd

341 Grwp Llefaru Bl. 6 ac iau (Adran)

Parti Canadram Adran Canadram 1af
Parti Llefaru Adran Y Lawnt Adran y Lawnt 2il
342 Llefaru Unigol Bl. 7 - 9

Loti Glyn Ysgol Gyfun Gwynllyw 1af
Taylor Riley Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 2il
Ffion Griffith Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 3ydd

344 Grwp Llefaru Bl. 7, 8 a 9

Parti Jacob Ysgol Gyfun Gwynllyw 1af
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 2il

345 Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed

Arwen Teagle Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af

350 Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 (D)

Kate Ager Ysgol Gynradd Coed-y-Brain 1af
Amelia Regulski Ysgol Gynradd Plasfelin 2il
Neve Parry Ysgol Gynradd Raglan 3ydd

351 Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 (D)

Ella Hicks Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin 1af
Olivia Paynter Ysgol Gynradd Coed-y-Brain 2il

352 Grwp Llefaru Bl. 6 ac iau (D)

Parti Coed-Y-Brain Ysgol Gynradd Coed-y-Brain 1af
Parti Lily Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf 2il

354 Cyflwyniad Llefaru Bl. 13 ac iau (D)

Parti Ysgol Gyfun Tredegar 1af

404 Ymgom Bl. 6 ac iau

Parti Ysgol y Castell Ysgol Gymraeg Y Castell 1af
Parti Ysgol Gymraeg Cwmbrân 2il
Parti Casnewydd Ysgol Gymraeg Casnewydd 3ydd

405 Cyflwyniad Dramatig Bl. 6 ac iau

Parti Penalltau Ysgol Gymraeg Penalltau 1af

406 Cân Actol Bl. 6 ac iau (Ysg. hyd 100)

Adran Panteg Adran Panteg 1af

Adran Lawnt Adran y Lawnt 2il

407 Cân Actol (Y.C.) Bl. 6 ac iau (Ysg. dros 100)

Parti Ifor Bach Ysgol Ifor Bach 1af

Parti Ysgol Gymraeg Caerffili 2il

Ysgol Gymraeg Bro Helyg 3ydd

408 Ymgom Bl. 7, 8 a 9

Grwp Gwent Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 1af
Parti Dylan Ysgol Gyfun Gwynllyw 2il
Grwp Is Coed Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 3ydd

410 Ymgom Bl. 10 a dan 19 oed

Ysgol Cwm Rhymni Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af

412 Cân Actol Bl. 7, 8 a 9

Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 1af

419 Unawd allan o Sioe Gerdd Bl. 10 a dan 19 oed

Celyn Haf Hughes Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 1af

Lizzie Metcalf Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2il

Tegan Theobald Ysgol Gyfun Gwynllyw 3ydd

425 Ymgom Bl. 6 ac iau (D)

Parti Sasha Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf 1af



426 Cân Actol Bl. 6 ac iau (D)

Parti Lily Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf 1af

Diolch i Helen Greenwood a'i chriw o wirfoddolwyr bodlon am drefnu a rhedeg yr eisteddfodau eleni eto. A diolch hefyd am y gwasanaeth canlyniadau manwl.

Mae'r rhestr canlyniadau yn dystiolaeth o'r ffordd y

Gŵyl Hedd Wyn ym Mhenbedw

Gan fod lluoedd feirdd yn perthyn i'ch ardaloedd, hoffwn alw sylw eich darllenwyr at yr Ŵyl a drefnir gennym ym Mhenbedw ar 9 a 10 Medi 2017 i gofio cadair ddu Eisteddfod Penbedw 1917, ac ar y Sadwrn o dan ofal Archdderwydd Cymru, y Prifardd Lloyd Owen, cyflwynir seremoni cadeirio'r beirdd yn y prynhawn (Cadair a dwy Goron) a bydd croeso i'r gorseddigion ddod i gefnogi ac i gadeirio a choroni y beirdd ifanc a hŷn.



Rhoddir y gadair hardd anghyffredin yn rhodd gan Gymdeithas Hedd Wyn, Fflandrys, am gerdd, neu gyfres o gerddi heb fod dros 100 linell ar y testun HEDD WYN. Dylid anfon y gwaith ataf erbyn 20 Gorffennaf 2017 i 32 Garth Drive, Allerton, Liverpool L18 6HW. Y beirniaid ydyw y Parchedig Ddr Siôn Aled, Wrecsam, a Dr Robin Gwyndaf, Caerdydd, dau fardd meistrolgar. Yr ydym hefyd yn awyddus i gael seremoni Coroni yn y ddwy iaith a hynny ar gyfer pobl ieuanc rhwng 11 a 19 mlwydd oed. Y Testun, ar gyfer cerdd neu gasgliad o gerddi yn Gymraeg, yw "Yr Arwr", ac yn Saesneg "The Hero", heb fod dros 80 llinell. Y dyddiad cau yw 2 Mehefin 2017. Bydd panel yn beirniadu cerddi y goron ac anfoner y gwaith ataf i'r cyfeiriad uchod. Dewch ffrindiau i gael anrhydeddu cerdd neu gerddi gwerth eu cael i gofio yr Arwr o Drawsfynydd.

Gyda diolch,

Y Parchedig D. Ben Rees. (Cadeirydd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi).



Dyma'r ail o luniau Byron Shyde o Ysgol Pengam yn 1916

Y Ganolfan Integredig
Boulevard de Saint-Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PD

3.4.17

Annwyl Olygydd,

Mae cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin ym mhob cwr o Gymru yn gwneud gwaith hollbwysig gyda phlant bach. Ceir cyfle, gyda seremoni wobrwyo Mudiad Meithrin, i gydnabod, diolch a dathlu rhagoriaethau'r cylchoedd hyn.

Os yw darllenwyr eich papur yn gwybod am unigolion (yn staff neu'n wirfoddolwyr) sy'n gweithio'n ddygn mewn cylch lleol, beth am eu henwebu?

Gall unrhyw un enwebu unrhyw un ac mae'r holl fanylion a'r ffurflenni enwebu ar gael o www.meithrin.cymru/enwebu, trwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio post@meithrin.cymru. Mae'r dyddiad cau ar 1 Mai eleni.

Mawr obeithiaf y daw llu o enwebiadau o bob cwr o Gymru sy'n amlinellu rhagoriaethau'r cylchoedd gerbron y panel dyfarnu.

Ar fater arall, mae Mudiad Meithrin yn cynnal Parti Pyjamas Mwyaf y Byd ar 9 Mai eleni gan anelu at dorri record y byd o 2,004 o bobl yn cymryd rhan. Os oes gan eich darllenwyr ddiddordeb mewn cymryd rhan boed hynny yn y gwaith, mewn ysgolion neu yn unrhywle arall, anfonwch lun at post@meithrin.cymru neu os hoffech gyfrannu'n ariannol at y Mudiad, gellir gwneud hynny trwy'r wefan www.justgiving.com/Mudiad-Meithrin neu trwy anfon neges destun at PYJA45 gyda'r swm yr hoffech ei gyfrannu i'r rhif 70070.

Yr eiddoch yn gywir,

Dr
Llwyd
Cadei-
Mudi-

Rhodri
Morgan
rydd
ad



Parti Pyjamas 9fed o Fai 2017
mwyaf y byd!
Chwarae > Darllen > Cysgu

 **mudiad
meithrin**

Helpwch ni i dorri record y byd drwy
gynnal parti pyjamas mwyaf y byd
ar Fai y 9fed 2017. #PartiPJsMM
www.meithrin.cymru/partipyjamas

 /MudiadMeithrin  @MudiadMeithrin

mentercaerffili.cymru

Cwrs Ceginio

Dechrau Nos Iau, Mai 4ydd
Cwrs 4 wythnos

18:30 - 20:30

Ystafell Ceginio
Safle Y Gwyndy, Caerffili
(Mynedfa drwy'r ganolfan chwaraeon)

£5 y sesiwn

Sesiynau ceginio o dan arweiniad Eluned Scott.
Bydd ryseitiai amrywiol a chyfle i gymdeithasu.
Rhaid i chi ddod a chynhwysion eich hunain.

Cysylltwch i dderbyn manylion pellach

01443820913 bethanjones@mentercaerffili.cymru

CYMRAG #PethauBychain

Gwobrau!  **Categoriâu 2017**

Arweinydd
Cynorthwydd
Cynhwysiant
Cylch Gwyrdd ac Iach
Gwirfoddolwr
Ardal y tu allan
Cylch TI a FI
Dewin a Doti
Marchnata a Chodl Arian
Darpariaeth
Pwyllgor Cylch



I enwebu neu am fwy o fanylion am bob categori ewch i www.meithrin.cymru/enwebu

 /MudiadMeithrin  @MudiadMeithrin

Llyfrau'r Enfys
Facebook/Llyfraurenfys
Twitter @llyfraurenfys
Vikki Alexander-07970172754



01443 879396



Bargoed
Chiropractic

TACSI GORSAF CAERFFILI
Cysylltwch â KEITH ar 022 362364 neu 07914 355195 facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Coleg Gwent

Cyrsiau Penwythnos

Pob un rhwng 8:45 a 17:00

20-21/05/17 Sad-Sul Campws Pont-y-pŵl

24-28/07/17 Llun-Gwe Campws Pont-y-pŵl

30/06-02/07/17 Gwe-Sul Llambod

Mae'r **Ysgol Haf** yn cynnwys 30 awr o wersi dros gyfnod o bum niwrnod. Bydd 8 lefel wahanol o ddosbarthiadau, gan gynnwys dosbarth i ddechreuwr pur. **£50 yn unig.**

Coleg Gwent

Cyrsiau Dydd Sadwrn

Rhwng 09:15 a 15:45

13/05/17 Campws Pont-y-Pŵl

Mae'r **Ysgolion Undydd** yn cael eu cynnal ar hyd a lled Gwent ar ddydd Sadwrn am 5 awr o ddysgu. **£10 yn unig.**

Saib@Siloh – gyda loan

Cyfarfod defosiynol misol – croeso i bawb

BEIBL BYW

10.30 – 11.30 ar fore Llun

5 Mehefin – Trawsnewidiad o'r tu fewn (1 loan 2:29 – 3:10)

3 Gorffennaf - Sefyll o flaen Duw (1 loan 3:11 -24)

Astudiaeth Llunïaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk /

www.siloh.co.uk

CF82 7AF 01443 813617

"Yn ôl traed y seintiau Celtaidd"

GŴYL FLODAU EGLWYS DEWI SANT, CAERDYDD

22-25 Mehefin.

Dyddiol 10.30-6; dydd Sul 12-5. Mynediad am ddim.

Lluniaeth ysgafn, a the prynhawn ar gael.

Noson agoriadol nos Iau gydag arddangosiad gan Donald Morgan. Mynediad £10 i gynnwys gwin.



Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

Pob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,

Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd

Parc Virginia, Caerffili

17:15 6ed o Fai

DREIGIAU GWENT

v

GLEISION CAERDYDD

Clwb Darllen Cwm Ni

Ail Lawr

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Mai 8fed Rhwng Dau Fyd

Mehefin 5ed **Dan Amheuaeth**

Gorffennaf 3ydd **Pant y Wennol**

Medi 4ydd **Dewis yr Aelodau**

Hydref 2ail **Awst yn Anogia**

Cyswllt

janpenney@aol.com

Croeso Cynnes i Bawb



Mae'n rhaid cael gwynt. Nid yw amser yn bod
Pan na bo gwyntoedd o rywle'n dod.

T H Parry-Williams



O'r Pedwar Gwynt

Gweld y byd trwy lyfrau

Mae *O'r Pedwar Gwynt* yn darllen, yn holi ac yn herio; yn adlewyrchu ac yn cwestiynu syniadau am y Gymru gyfoes a'i lle yn y byd.

Tanysgrifiwch i dderbyn y cylchgrawn bob tymor drwy'r post a chael mynediad llawn i'r wefan am £15 y flwyddyn:

☞ drwy ymweld â'n gwefan: www.pedwargwynt.cymru
a thalu ar-lein

☞ NEU drwy lenwi'r ffurflen isod ac anfon siec am £15
yn daladwy i O'r Pedwar Gwynt Cyf.

Enw:

Cyfeiriad:

E-bost:

Ffôn:

O'r Pedwar Gwynt

Blwch Post 91
Aberystwyth
SY23 9AY

post@pedwargwynt.cymru
@pedwargwynt
www.pedwargwynt.cymru

Hoffem fynegi ein diolch diffuant i deulu T H Parry-Williams ac I Wasg Gomer.